Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Canllaw i Ddeiliad Tai
ar Systemau Chwistrellu



Cynnwys

Cyflwyniad 3

Eich system chwistrellu 3

Manteision cael system chwistrellu 4

Gofal a chynnal a chadw eich system chwistrellu 6

Gwneud newidiadau i'ch cartref 7

Beth sy'n digwydd os wyf yn gwerthu fy nghartref? 7

Beth yw cyfrifoldebau tenant mewn tŷ gyda system chwistrellu? 8

Chwe cham ar gyfer diogelwch tân yn eich cartref 8

Gwybodaeth fwy manwl am systemau chwistrellu 9

Troednodiadau 10

Eich system chwistrellu – **cofnod cynnal a chadw** **11**

Cynghorir adeiladwyr Tai a gosodwyr systemau chwistrellu i roi digon o wybodaeth i ddeiliaid tai i'w galluogi i gynnal a chadw eu system chwistrellu. system. Mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi'r canllaw hwn i ddarparu gwybodaeth berthnasol i ddeiliad tai am systemau chwistrellu.

Gallwch gael gwybodaeth fanwl am eich system chwistrellu gan eich adeiladwr tai neu gan y sawl sy'n gosod y system chwistrellu ichi.

Cyngor yn unig yw'r canllawiau a roddir yn y ddogfen hon ac nid oes statws statudol iddynt.

OGL
ISBN digidol 978-1-4734-5410-1
© Hawlfraint y goron 2015
WG26610

Cyflwyniad

1. Yn Hydref 2013, pasiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru reoliadau newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol gosod system chwistrellu mewn tai a fflatiau newydd a thai a fflatiau sydd wedi'u haddasu.

2. Mae'r Canllaw hwn yn rhoi gwybodaeth am systemau chwistrellu ac yn ateb rhai cwestiynau cyffredin ac yn cywiro ambell i gamargraff am systemau chwistrellu. Bydd yn dweud wrthych:

   - sut mae system chwistrellu yn gweithio a beth fydd yn digwydd os bydd y system chwistrellu yn gweithredu;
   - beth y gallwch ei wneud i gynnal a chadw eich system chwistrellu; a
   - beth sydd angen i chi ei wneud os byddwch yn gwneud addasiadau i'ch cartref (fel gwneud newidiadau i'r adeiledd mewnol, neu ychwanegu estyniad) yn y dyfodol.

3. Mae eich system chwistrellu wedi cael ei chynllunio i achub bywydau ac atal anafiadau i ddeiliaid tai a diffoddwyr tân. Bydd systemau chwistrellu hefyd yn atal difrod helaeth i'ch cartref mewn achos o dân.

4. Mae systemau chwistrellu yn gweithio drwy ryddhau chwistrell o ddŵr i atal neu ddiffodd tân cyn gynted ag y bydd tân yn cynhesu'r aer i dymheredd penodol. Bydd hyn yn digwydd o fewn cyfnod byr i'r tân ddechrau. Felly mae systemau chwistrellu yn atal y tân rhag cael gafael a lledaenu o fewn yr ystafell, ac i rannau eraill o'r tŷ neu'r fflat.

5. Mae systemau chwistrellu yn dechnoleg sydd wedi cael ei phrofi'n helaeth ac maent wedi achub bywydau di-ri ac atal llawer o anafiadau mewn gwahanol fathau o adeiladau, gan gynnwys tai a fflatiau, o gwmpas y byd. Mae systemau chwistrellu yn ychwanegiad pwysig at nodweddion diogelwch tân eraill eich cartref, fel synwyryddion mwg.

Eich system chwistrellu

6. **Mae eich system chwistrellu yn cynnwys:**

   - Cyflenwad dŵr i ddarparu dŵr – naill ai o danc dŵr, neu o'r prif gyflenwad (gall hyn hefyd gynnwys system â phwmp). Bydd tanc wedi'i leoli naill ai y tu mewn (er enghraifft, yn yr atig) neu y tu allan i'ch tŷ, a bydd ganddo bwmp i wthio'r dŵr drwy'r system. Os nad oes gennych danc, bydd y dŵr yn cael ei gyflenwi o'r prif gyflenwad dŵr (os oes gennych gan eich prif gyflenwad dŵr bwmp, efallai ei fod mewn casyn caeedig un ai yn y gegin neu'r ystafell aml-bwrpas. Bydd eich adeiladwr neu'r sawl sy'n gosod y system chwistrellu ichi yn gallu rhoi'r union fanylion ichi).
   - Stopfalf dŵr y system chwistrellu sydd angen ei gadw ar ago[1] (os bydd wedi'i gau, bydd yn atal dŵr rhag cael ei gyflenwi i'r system chwistrellu).
   - Pibellau wedi'u cuddio i fwydo'r dŵr i'r system chwistrellu, yn yr un ffordd ag y mae pibellau wedi'u cuddio yn cludo dŵr i'ch tapiau ac eitemau eraill yn eich cartref.

- Mae cyfres o bennau chwistrellu yn y rhan fwyaf o ystafelloedd y tŷ. Am resymau estheteg, mae'n debygol mai pennau chwistrellu wedi'u cuddio fydd y systemau chwistrellu (h.y. wedi'u cuddio o dan blatiau bach crwn gwastad, wedi'u gosod yn erbyn y nenfwd);
- Larwm sy'n gweithredu'n annibynnol[2] i'ch larwm mwg.

7. **Y prif rannau yn eich cartref lle caiff systemau chwistrellu eu gosod yw'r canlynol:**
   - Ystafelloedd byw, ystafelloedd bwyta, a lolfeydd;
   - Swyddfeydd cartref;
   - Ystafelloedd gwely;
   - Ceginau;
   - Ystafelloedd amlbwrpas;
   - Ystafelloedd ymolchi mwy[3];
   - Cypyrddau mwy a phantrïoedd[4];
   - cynteddau, grisiau a phennau grisiau
     (er nid o reidrwydd cynteddau a grisiau cymunedol mewn blociau o fflatiau).

8. Mewn achos o dân, bydd y system chwistrellu yn gweithredu yn unig pan fydd tymheredd yr aer, oherwydd y tân, yn cyrraedd, rhwng 57 a 68 gradd celsius. Yr enw ar hyn yw "y tymheredd gweithredu"[5]. Nid yw systemau chwistrellu yn gweithredu oherwydd mwg, gwres o goginio neu drwy losgi tost, neu stêm o ystafell ymolchi neu gawod. Mae'r risg o system chwistrellu yn cychwyn ar ddamwain yn isel iawn.

Systemau chwistrellu – y ffeithiau

Ni fydd systemau chwistrellu yn gweithredu ar ddamwain. Ni fyddant yn gweithredu oherwydd gwres o goginio, stêm o ystafell ymolchi neu gawod, ac ni fyddant yn mynd i ffwrdd pe baech yn llosgi'r tost!

9. Mewn achos o dân, bydd y plât(iau) crwn agosaf, sydd wedi'u gosod yn erbyn y nenfwd, yn disgyn i lawr a bydd pen chwistrellu yn disgyn i lawr o fewn y gosodiad a pan fydd y tymheredd priodol wedi cyrraedd bydd y system chwistrellu dŵr yn gweithredu. Bydd yn chwistrellu diferion o ddŵr ar y rhan o'r tŷ neu'r fflat sydd wrth ymyl ac union o dan y system chwistrellu. Bydd y chwistrell barhaus o ddŵr yn ddigon i atal neu ddiffodd y tân.

10. Mewn achos o dân, yr unig systemau chwistrellu fydd yn gweithredu fydd y rhai sydd wedi cyrraedd "y tymheredd gweithredu" yn yr ardal sy'n agos i'r tân. Ni fydd systemau chwistrellu eraill mewn rhannau eraill o'r ystafell, ac ystafelloedd cyfagos lle nad oes tân, yn gweithredu. Felly mae golygfeydd mewn ffilmiau a rhaglenni teledu - lle mae taniwr sigarét yn cael ei ddal o dan system chwistrellu unigol ac mae'r holl systemau chwistrellu mewn adeilad yn dod ymlaen – yn anghywir!

Systemau chwistrellu – y ffeithiau

Os oes tân, bydd yr unig systemau chwistrellu i weithredu fydd y rhai sydd agosaf at y tân (fel arfer dim ond un system chwistrellu). Ni fydd tân yn golygu bod holl systemau chwistrellu mewn tŷ neu fflat yn gweithredu. Mae'r hyn rydych efallai wedi'i weld mewn ffilmiau yn anghywir!

11. Bydd y system chwistrellu yn achosi mân ddifrod. Bydd yr ardal yng nghyffiniau'r tân wedi cael eu drochi gan ddŵr o'r system chwistrellu. Mewn llawer o achosion, bydd angen sychu cynnwys yr ystafell (fel dodrefn a charpedi) o fewn yr ardal gafodd ei chwistrellu. Mae'n debygol y bydd rhywfaint o ddifrod oherwydd tân a mwg, ac mae'n debygol y bydd angen rhywfaint o ailaddurno.
12. Mae angen cymharu hyn gyda'r difrod a achosir gan dân a mwg yn absenoldeb systemau chwistrellu. Byddai effeithiau difrod tân yn llawer mwy helaeth gan y byddai'r tân wedi llosgi am gyfnod llawer hirach, yn fwy ffyrnig, ac wedi lledaenu ar draws mwy o ystafelloedd ac o bosibl drwy'r cartref cyfan. Mewn llawer o achosion, bydd holl gynnwys yr ystafell neu ystafelloedd wedi'u colli. Byddai'r tân a'r mwg wedi achosi difrod helaeth, yn ogystal â golygu colli llawer o eiddo personol.
13. Mae systemau chwistrellu yn defnyddio hyd at 90% yn llai o ddŵr i ddiffodd tân. Byddai'r Gwasanaeth Tân yn defnyddio llawer iawn mwy o ddŵr, ac felly byddai'r difrod i'ch eiddo o'r dŵr yma yn llawer mwy hefyd

Systemau chwistrellu – y ffeithiau

Bydd dŵr o system chwistrellu ond yn achosi mân ddifrod, ac efallai bydd angen i chi sychu rhai eitemau o ddodrefn a charpedi, ac o bosib ailaddurno unrhyw waliau sydd wedi'u trochi mewn dŵr.

Byddai difrod gan dân (yn absenoldeb system chwistrellu) yn llawer mwy eang a difrifol, ac yn bygwth bywyd. Byddai'r Gwasanaeth Tân yn defnyddio llawer mwy o ddŵr i ddiffodd tân mewn tŷ na system chwistrellu, ac felly byddai'r difrod dŵr wrth i'r Gwasanaeth Tân ymladd y tân yn llawer mwy difrifol.

Manteision cael system chwistrellu

14. **Mae'r manteision o gael system chwistrellu yn glir:**

- Atal tân rhag gafael a lledaenu drwy weddill y cartref ac lleihau'r risg yn sylweddol o farwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i dân a mwg i'r rhai sy'n bresennol yn y cartref ar adeg y tân;
- Bydd systemau chwistrellu hefyd yn atal marwolaeth ac anafiadau i ddiffoddwyr tân fydd yn ymladd y tân;
- Bydd systemau chwistrellu yn atal difrod i eiddo.

Gofal a chynnal a chadw eich system chwistrellu

15. Er mwyn sicrhau y bydd eich system chwistrellu yn gweithredu'n effeithiol pan fydd ei angen, mae'n rhaid i chi wneud yn siŵr ei fod yn cael ei gynnal a'i gadw'n iawn. Mae hyn union yr un fath ag unrhyw offer penodol arall yn eich cartref, fel bwyleri nwy er enghraifft. Rhaid i'r system chwistrellu gael ei chynnal a'i chadw'n rheolaidd gan beirianwyr cymwys er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i weithredu'n ddiogel.

16. Dylid gosod y stopfalf yn gadarn yn ei le fel nad oes modd ei gau ar ddamwain. Dylech osgoi cau stopfalf dŵr y system chwistrellu, er mwyn sicrhau bod y system chwistrellu'n gweithio pan fydd ei angen.

17. Dylech osgoi paentio dros y platiau crwn, sydd wedi'i gosod yn y nenfwd, gan fod y pennau chwistrellu y tu ôl iddynt.

18. Nid yw cynnal a chadw system chwistrellu yn feichus nac yn gostus. Argymhellir bod eich system yn cael ei archwiliad cynnal a chadw blynyddol gan osodwr systemau chwistrellu cymwys.

    Dylai'r archwiliad blynyddol hyn gynnwys:

    - Profi'r pwmp dŵr (ar gyfer systemau lle mae dŵr yn cael ei gyflenwi o danc dŵr gyda phwmp) i sicrhau ei fod yn gweithio,
    - Archwiliad gweledol rhag ofn ei fod yn gollwng dŵr;
    - Sicrhau nad yw'r system chwistrellu wedi'i haddasu, ac nad oes unrhyw rwystr sy'n atal pennau'r system chwistrellu rhag gweithio, er enghraifft drwy baentio dros y platiau crwn sydd wedi'u gosod ar y nenfwd;
    - Sicrhau bod y larwm chwistrellu yn dal yn gweithio'n iawn (yn yr un modd ag y byddwch yn sicrhau bod eich larwm mwg bob amser yn gweithio'n effeithiol).

Crynodeb o gynnal a chadw system chwistrellu:

- Peidiwch â phaentio dros blatiau crwn y system chwistrellu yn y nenfwd
- Peidiwch â chau stopfalf dŵr y system chwistrellu
- Gwiriwch eich system chwistrellu bob blwyddyn

19. Fe'ch cynghorir i gadw cofnod ysgrifenedig o'r adegau y mae eich system chwistrellu wedi cael ei gynnal a'i gadw. Dylai'r ffurflen sydd wedi'i chynnwys ar ddiwedd y Canllaw i Ddeiliaid Tai yma fod o gymorth. Bydd hyn yn helpu os ydych yn gwerthu eich cartref neu eisiau hawlio hawliad ar yr yswiriant.

Gwneud newidiadau i'ch cartref

20. Efallai y byddwch am wneud newidiadau i'ch cartref yn y dyfodol. Er enghraifft, drwy ychwanegu heulfan, adeiladu estyniad, trawsnewid atig yn ystafell wely ychwanegol neu'n swyddfa, neu drwy wneud newidiadau mewnol eraill fel rhannu un ystafell yn ddwy. **Bydd rhaid i chi wneud hyn mewn ffordd sy'n cynnal yr un lefel o ddiogelwch system chwistrellu yn yr estyniad neu'r rhan o'r eiddo a gafodd ei haddasu, fel yng ngweddill y cartref.**

21. Os ydych yn ystyried gwneud newidiadau i'ch cartref, dylech ofyn am gyngor proffesiynol[6]. Efallai y bydd y gwaith yn gofyn am gael sawl math gwahanol o ganiatâd fel caniatâd Cynllunio neu Reoliadau Adeiladu. Felly, argymhellir eich bod yn trafod eich cynigion gydag Adrannau Cynllunio a Rheoli Adeiladu eich Awdurdod Lleol er mwyn cael cyngor pellach, **cyn** i chi ddechrau ar unrhyw waith adeiladu.

22. **Ychwanegu estyniad i'ch cartref; trawsnewid atig (e.e. yn ystafell wely neu swyddfa); neu ychwanegu heulfan[7]:** Bydd angen ymestyn y system chwistrellu i gynnwys yr estyniad, addasiad, neu'r heulfan. Dylid cynnwys y gofyniad hwn yn eich cyfarwyddiadau i bensaer neu ddylunydd.

23. **Ychwanegu garej sy'n gyfagos i'ch tŷ:** Mae'r gofyniad i gael systemau chwistrellu yn berthnasol i "lety preswyl" (h.y. lle rydych yn byw) yn unig ac nid i garejys. Ar yr amod bod yr ardal rhwng y tŷ a'r garej yn gwrthsefyll tân i'r lefel ofynnol, nid oes angen ymestyn y system chwistrellu i'r garej newydd.

24. **Newidiadau mewnol i'ch tŷ:** Wrth wneud addasiadau mewnol, fel ychwanegu waliau neu newid y cynllun mewnol, bydd rhaid i chi wneud hynny mewn ffordd sy'n cynnal yr un lefel o ddiogelwch system chwistrellu, a heb effeithio ar weithrediad y system chwistrellu. Dylai'r gofyniad hwn gael ei gynnwys yn eich cyfarwyddiadau i bensaer neu ddylunydd.

Beth sy'n digwydd os wyf yn gwerthu fy nghartref?

25. Efallai y bydd y system chwistrellu yn bwynt cadarnhaol pan fyddwch yn rhoi eich eiddo ar y farchnad. Fodd bynnag, gadewch y llawlyfr hwn, neu gopi gyda cofnod o'r archwiliadau cynnal a chadw ar gyfer y perchnogion newydd.

Beth yw cyfrifoldebau tenant mewn tŷ gyda system chwistrellu?

26. Cynghorir tenantiaid i gysylltu â'u landlordiaid i drafod gofynion cynnal a chadw system chwistrellu, a sicrhau dealltwriaeth ynglŷn â'r cyfrifoldebau ar gyfer hyn.

Beth arall ddylwn i ei wneud i leihau'r risg o dân?

Chwe cham ar gyfer diogelwch tân yn eich cartref:

CYNLLUNIO – cynlluniwch eich llwybr dianc hawsaf

PROFI – gosodwch larwm mwg a'i brofi'n rheolaidd

GWIRIO – gwiriwch yr holl offer cyn mynd i'r gwely neu adael y tŷ

GOFAL – wrth goginio, peidiwch byth â gadael sosbenni sglodion (ac eitemau thebyg) heb oruchwyliaeth

CAU – caewch pob drws, yn enwedig yn y nos

GALW – ewch allan a ffoniwch 999 ar yr arwydd cyntaf o dân

Gwybodaeth fwy manwl am systemau chwistrellu

Mae gan Gymdeithas Systemau Chwistrellu Awtomatig Prydain (BAFSA) wybodaeth ar gyfer eiddo domestig ac annomestig, ewch i: http://www.bafsa.org.uk/publications/bafsa-information-files.php

Sut mae systemau chwistrellu'n gweithio

Am esboniad mwy manwl, ewch i:
http://www.derbys-fire.gov.uk/campaigns/think-sprinkler/how-sprinklers-work a;

http://www.firesprinklers.org.uk/

Ffilmiau fideo yn dangos systemau chwistrellu yn y cartref

I weld ffilm fideo yn dangos effeithiau tân mewn ystafell fyw heb system chwistrellu, o'i gymharu â thân mewn ystafell fyw gyda system chwistrellu wedi'i gosod, ewch i:
http://www.mawwfire.gov.uk/English/Safety/At-Home/Pages/Domestic-Sprinklers.aspx

Cyngor cwmni dŵr ar systemau chwistrellu

I gael cyngor ar systemau chwistrellu, gan gynnwys canllawiau ar gyflenwi dŵr ar gyfer system chwistrellu yn y cartref, ewch i: http://www.deevalleywater.co.uk/article.php?id=148

Am fwy o wybodaeth ar ddiogelwch tân yn y cartref gan Wasanaethau Tân ac Achub Cymru, ewch i:
http://www.nwales-fireservice.org.uk/keeping-you-safe/at-home/at-home.aspx?lang=cy

http://www.mawwfire.gov.uk/Cymraeg/Diogelwch/Yn-Y-Cartref/Pages/default.aspx

http://www.southwales-fire.gov.uk/Cymraeg/yoursafety/home/Pages/new_home_page.aspx

Troednodiadau

1 Ac eithrio mewn achos anarferol lle mae dŵr yn gollwng

2 Gellir cysylltu larymau Systemau Chwistrellu i larymau mwg os oes angen

3 Ystafelloedd ymolchi mwy na 5 metr sgwâr

4 Cypyrddau a phantrïoedd dros 2 fetr sgwâr

5 Bydd y tymheredd gweithredu penodol yn cael ei benderfynu gan gynllunydd y system chwistrellu

6 Os yw eich system chwistrellu yn dal o dan warrant, fe'ch cynghorir I drafod gyda'r contractiwr a'I gosododd cyn gwneud unrhyw newidiadau.

7 Oni bai bod yr heulfan wedi'i eithrio o Reoliadau Adeiladu. Os ydych yn ansicr ynghylch a yw heulfan newydd wedi'i eithrio o Reoliadau Adeiladu, cysylltwch ag Adran Rheoli Adeiladu eich Awdurdod Lleol.

Eich system chwistrellu – **cofnod cynnal a chadw**

Fe'ch cynghorir i gadw cofnod ysgrifenedig o gynnal a chadw eich system chwistrellu. Bydd y ffurflen hon yn eich helpu i gofnodi'r materion allweddol.

Dyddiad archwilio	**Manylion a chanlyniadau profion**	**System chwistrellu:** statws gweithredol	**Larwm system chwistrellu:** statws gweithredol	**Argymhellion**